




## Omnibws y Plant 2018

Mynychu ac ymgyfranogi cyffredinol  
yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

---



## Cynnwys

Cyflwyniad .....	4
Amllder Mynychu Digwyddiadau Celfyddydol - Methodoleg.....	6
Crynodeb Gweithredol .....	7
Trosolwg o Fynychiadau mewn Digwyddiadau Celfyddydol fesul Ffurff Gelf dros y tair blynedd ddiwethaf.....	8
Sut a phryd y mynychir gweithgareddau celfyddydol?.....	9
Cyfranogiad yn y celfyddydau – Methodoleg .....	10
Trosolwg o Gyfranogiad yn y Celfyddydau fesul Ffurff Gelf dros y tair blynedd ddiwethaf .....	11
Sut a phryd y cyfranogir mewn gweithgareddau? .....	12
Gradd gymdeithasol: Mynychiadau .....	13
Gradd gymdeithasol: Cyfranogiad .....	13
Rhywedd: Mynychiadau.....	14
Rhywedd: Cyfranogiad .....	14
Mynychiadau yn ôl Oedran .....	15
Cyfranogiad yn ôl Oedran .....	17
Mynychiadau mewn digwyddiadau celfyddydol yn ôl Rhanbarth.....	19
Cyfranogiad yn y celfyddydau yn ôl Rhanbarth.....	19
Mynychiadau mewn digwyddiadau celfyddydol yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.....	20
Cyfranogiad yn y Celfyddydau yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.....	21
Atodiad 3: Diffiniadau o safleoedd cymdeithasol.....	22
Atodiad 4: Holiadur Arolwg 2017 .....	23

# Cyflwyniad

## Cefndir

Ers 2007 mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cynnal arolwg blynyddol o fynychiadau a chyfranogiad ymhlith plant a phobl ifanc. Caiff gwybodaeth am fynychiadau mewn digwyddiadau celfyddydol a chyfranogiad mewn gweithgareddau artistig ei chasglu trwy gyfres o gwestiynau a ofynnir yn Arolwg Omnibws Plant Beaufort Research pob blwyddyn. Mae copi o'r holiadur a ddefnyddir i gasglu'r wybodaeth wedi'i atodi i'r adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o arolwg 2018, gan edrych ar lefelau cyffredinol mynychiadau a chyfranogiad yn y celfyddydau gan blant a phobl ifanc. Ymchwilir i amrywiadau demograffig a rhanbarthol, darperir cymhariaeth o ffurfiau celf darperir tueddiadau.

## Methodoleg

Cynhelir Arolwg Omnibws Plant Beaufort Research dair gwaith y flwyddyn; yn y gwanwyn, yr haf a'r hydref. Mae pob ton o'r arolwg yn cynnwys cyfweiliadau gydag oddeutu 500 o blant a phobl ifanc rhwng 7 a 18 oed. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn noddi modiwlau cwestiynau yn holiaduron mis Ebrill a mis Hydref. Mae pob blwyddyn o ddata a drafodir yn yr adroddiad yn gyfuniad o setiau data mis Ebrill a mis Hydref, sy'n cynrychioli sampl flynyddol gyfunol o ryw 1,000 o gyfweleion. Er mwyn cael sampl gynrychioliadol o bobl ifanc 7 i 18 oed ar draws Cymru, pennir cwotâu ar y cyfweiliadau a gynhelir yn ôl rhanbarth, oedran, rhywedd a gallu i siarad Cymraeg, sy'n adlewyrchu cyfrannau Cyfrifiad 2011. Caiff y data sy'n deillio o hyn hefyd eu pwysoli i gywiro unrhyw fân anghysonderau yn y sampl, gan sicrhau eu bod yn cynrychioli poblogaeth Cymru rhwng 7 a 18 oed.

Cynhelir y cyfweiliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg CAPI (cyfweld personol â chymorth cyfrifiadurol) gan dîm o gyfwelwyr profiadol Beaufort. Gwnaethpwyd yr holl waith maes yn unol â Chod Ymddygiad MRS ac yn benodol, gan ddilyn y Canllawiau ar gyfer Gwneud Ymchwil gyda Phlant a Phobl Ifanc.

Gwnaethpwyd gwaith maes yr arolwg ym mis Ebrill a misoedd Hydref a Thachwedd 2018; gan roi sampl heb ei phwysoli o 1,009 o bobl ifanc 7-18 oed.

Cyflwynir y data mewn cyfres o siartiau bar a llinell, sy'n dangos canran y plant a phobl ifanc sydd wedi mynychu neu gymryd rhan ym mhob un o'r gweithgareddau y gofynnwyd amdanynt yn yr arolwg. Rhennir y canlyniadau yn ôl rhanbarth a grŵp demograffig allweddol. Lle cyflwynir amllder mynychuadau a chyfranogiad mae'n cyfeirio at gyfradd o unwaith y flwyddyn neu amlach.

Mae hefyd yn werth nodi mai diffiniadau'r Cyngor o ranbarthau Cymru yw'r diffiniadau rhanbarthol y cyfeirir atynt drwy gydol yr adroddiad. Mae'r rhain i'w gweld isod:

<b>Enw'r Rhanbarth</b>	<b>Diffiniad</b>
Y Gogledd	Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Ynys Môn, Gwynedd
Y De-orllewin	Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe, Castell Nedd Port Talbot
Canolbarth y De	Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful
Y De-ddwyrain	Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent

## Amllder Mynychu Digwyddiadau Celfyddydol - Methodoleg

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa mor aml maent yn mynychu pob un o'r naw ffurf gelf ganlynol:


- Dramâu
- Sioeau Cerdd
- Cerddoriaeth Glasurol
- Opera
- Cerddoriaeth Fyw arall
- Perfformiadau dawns
- Oriellau neu arddangosfeydd celf neu grefft
- Darlleniadau, Adrodd Storiâu a digwyddiadau llenyddol eraill
- Carnifalau a Chelfyddydau'r Stryd\*

\*Ychwanegwyd y ffurf gelf hon yn 2010

Mae Mynychu Digwyddiadau Celfyddydol yn crynhoi'r holl fynychiadau mewn digwyddiadau celfyddydol, a fesurir gan fynychiadau mewn unrhyw ffurf gelf. Edrychir ar yr amrywiadau demograffig a rhanbarthol yn yr holl fynychiadau er mwyn deall pa blant a phobl ifanc sy'n fwy tebygol o fynychu'r celfyddydau yng Nghymru unwaith y flwyddyn neu fwy.


Wrth ystyried ffigurau'r holl fynychiadau, dylid nodi y cafodd 'Carnifalau a chelfyddydau'r stryd' ei hychwanegu at y rhestr ffurfiau celf yn 2010. Felly edrychir ar yr holl fynychiadau celfyddydol ar sail mynychiadau mewn unrhyw un o'r wyth ffurf gelf dros y deng mlynedd ddiwethaf ond hefyd ar sail pob un o'r naw ffurf gelf dros y chwe blynedd ddiwethaf. Wrth edrych ar dueddiadau demograffig, bydd y cymariaethau'n seiliedig ar bob un o'r naw ffurf gelf dros y tair blynedd ddiwethaf.

## Crynodeb Gweithredol




Mae mynychiadau mewn digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy ymysg plant a phobl ifanc wedi cynyddu 2.8 pwynt canran wrth i 89.3% fynychu unrhyw un o'r 9 ffurf gelf yn 2018. Hon yw'r lefel mynychiadau uchaf ers cyn 2012.

O ganolbwyntio ar yr 8 ffurf gelf yr holwyd amdanynt ers i'r arolwg ddechrau yn 2007 (gan eithrio carnifalau a chelfyddydau'r stryd), yn 2018 mae cyfran y bobl ifanc 7-18 oed sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu fwy wedi cynyddu 1 pwynt canran i 80.5%. Hon yw'r lefel mynychiadau uchaf ers cyn 2012.




## Trosolwg o Fynychiadau mewn Digwyddiadau Celfyddydol fesul Ffurf Gelf dros y tair blynedd ddiwethaf



- Mae mynychuadau mewn Carnifalau a Chelfyddydau'r Stryd wedi cynyddu 4 pwynt canran ers 2017. Hon yw'r ffurf gelf fwyaf poblogaidd ymysg plant a phobl ifanc o hyd, wrth i fwy na hanner ohonynt (54.9%) ei mynychu unwaith y flwyddyn neu fwy.
- Dramâu yw'r ffurf gelf fwyaf poblogaidd ond un i'w mynychu unwaith y flwyddyn neu fwy o hyd, wrth i 47.7% i blant a phobl ifanc wneud hynny yn 2018.
- Mae mynychuadau mewn Oriolau/Arddangosfeydd Celf/Crefft ar eu lefel uchaf dros y tair blynedd, wrth i 42.4% o blant a phobl ifanc eu mynychu unwaith y flwyddyn neu fwy.
- Opera yw'r ffurf gelf â'r nifer leiaf o fynychiadau o hyd; dim ond 1.2% o blant a phobl ifanc a'i mynychodd unwaith y flwyddyn neu fwy.
- Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn y mynychuadau mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Glasurol sef 2.7 pwynt canran ers 2017, wrth i 5.8% o bobl a phobl ifanc eu mynychu unwaith y flwyddyn neu fwy yn 2018.
- Aeth mwy na chwarter o'r plant a phobl ifanc i ddigwyddiadau llenyddol unwaith y flwyddyn neu fwy. Mae mynychuadau mewn Digwyddiadau Llenyddol wedi cynyddu 2.4 pwynt canran ers 2017, i 26.2% yn 2018.
- Mae lefel mynychuadau mewn Sioeau Cerdd wedi aros yn gymharol sefydlog sef tua 28% ers 2017.
- Mae mynychuadau plant a phobl ifanc mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Fyw Arall unwaith y flwyddyn neu fwy wedi gostwng 1.1 pwynt canran, gan fynd yn ôl i'r un lefel ag yn 2016.
- Mae mynychuadau plant a phobl ifanc mewn digwyddiadau Dawns unwaith y flwyddyn neu fwy wedi cynyddu 1.4 pwynt canran ers 2017 i 26.2%.



## Sut a phryd y mynychir gweithgareddau celfyddydol?



Mae canran y plant a phobl ifanc nad ydynt yn mynychu gweithgaredd celfyddydol wedi gostwng 2.8 pwynt canran ers 2017 i 10.8%.

Mae canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol yn eu hamser eu hunain (heb eu trefnu gan ysgol/coleg) wedi cynyddu 1.2 pwynt canran ers 2017 i 77.6%.


Mynychodd 47.3% o blant a phobl ifanc weithgaredd celfyddydol a drefnwyd gan ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol, a mynychodd 8.8% arall ddigwyddiad a drefnwyd gan ysgol/coleg y tu allan i oriau ysgol. Nid yw'r ffigurau hyn yn adio i 100% gan fod y sampl yn cynnwys plant a phobl ifanc a allai fod wedi mynychu mwy nag un ffurf gelf mewn mwy nag un ffordd.

## Cyfranogiad yn y celfyddydau – Methodoleg

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa mor aml yr oeddent yn cymryd rhan ym mhob un o'r saith ffurf gelf ganlynol:


- Gweithgareddau cerddorol
- Drama neu weithgaredd theatr
- Gweithgaredd dawn
- Gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth
- Celfyddydau a chrefftau gweledol
- Celfyddydau digidol
- Ysgrifennu creadigol

Mae cyfranogiad yn y celfyddydau'n crynhoi'r holl gyfranogiad unwaith y flwyddyn neu fwy, a fesurwyd yn ôl grŵp demograffig, rhanbarth a'r gallu i siarad Cymraeg, ymhlith ffactorau eraill.



Dylid nodi, hyd at 2009, roedd yr arolwg yn gofyn am 'gelfyddydau cyfryngol' yn hytrach na 'chelfyddydau digidol', a gyflwynwyd yn 2010. Er ei fod yn edrych ar fath tebyg o weithgaredd yn fras, cafodd y celfyddydau cyfryngol eu diffinio fel dylunio gwefannau a gweithio gyda'ch cyfrifiadur personol, ond mae celfyddydau digidol yn cael eu diffinio'n gliriach fel a ganlyn: creu a gwneud darnau celfyddydol gan ddefnyddio technoleg ddigidol e.e. lanlwytho, creu neu ailgymysgu cynnwys cysylltiedig â'r celfyddydau (e.e. ar YouTube, Flickr ac ati).


- Yn 2018, cymerodd 87% o blant a phobl ifanc ran mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy; gostyngiad bach o 0.4 pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol.
- Ers 2012, mae cyfraddau cyfranogiad wedi codi a gostwng; yn 2015 roedd y lefel uchaf o gyfranogiad ymysg plant a phobl ifanc sef 88.5%.



## Trosolwg o Gyfranogiad yn y Celfyddydau fesul Ffurf Gelf dros y tair blynedd ddiwethaf

- Y ffurf gelf â'r lefel cyfranogiad uchaf yn 2018 oedd Celfyddydau a Chrefftau Gweledol, wrth i 64.7% o blant a phobl ifanc gymryd rhan unwaith y flwyddyn neu fwy.
- Ysgrifennu Creadigol oedd y ffurf gelf fwyaf poblogaidd ond un wrth i 63.1% o blant a phobl ifanc gymryd rhan unwaith y flwyddyn neu fwy yn 2018. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu 0.9 pwynt canran ers 2017.
- Bu 1.2 pwynt canran o ostyngiad yng nghyfraddau cyfranogiad Dawn ers 2017. Hwn yw'r categori â'r cyfranogiad lleiaf ymysg plant a phobl ifanc o hyd, wrth i un ym mhob pump gyfranogi unwaith y flwyddyn neu fwy yn 2018 (20.8%).
- Yn y Celfyddydau Digidol y gwelwyd y gostyngiad mwyaf mewn cyfranogiad gan blant a phobl ifanc – fe ostyngodd 7.3 pwynt canran o 48.8% yn 2017 i 41.5% yn 2018.
- Mae cyfraddau cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn Gweithgareddau Cerddorol wedi gostwng 5.2 pwynt canran ers 2017, i 45.7%.
- Mae lefelau cyfranogiad plant a phobl ifanc unwaith y flwyddyn neu fwy mewn gweithgaredd Drama a Theatr wedi aros yn gymharol sefydlog, oddeutu 35% ers 2017.
- Ym maes Ffilm, Fideo a Ffotograffiaeth gwelwyd 2.8 pwynt canran o ostyngiad yng nghyfranogiad plant a phobl ifanc unwaith y flwyddyn neu fwy ers 2017, o 38.3% i 35.5%.

## Sut a phryd y cyfranogir mewn gweithgareddau?





Yn 2018, mewn cyferbyniad â mynychuadau mewn digwyddiadau celfyddydol, mae'r rhan fwyaf o'r cyfranogiad yn digwydd o ganlyniad i weithgaredd a drefnwyd yn ystod oriau ysgol/coleg, wrth i 72.3% gymryd rhan yn y celfyddydau fel hyn. Cymerodd dros hanner y plant a phobl ifanc (51.9%) ran mewn gweithgaredd yn eu hamser eu hunain, heb ei drefnu gan ysgol/coleg, unwaith y flwyddyn neu fwy. Mae canran y plant a phobl ifanc nad oeddent wedi cyfranogi mewn unrhyw ddigwyddiad wedi cynyddu 0.7 pwynt canran ers 2017 i 13.3%.

Mae canran y plant oedd wedi cyfranogi mewn unrhyw ddigwyddiad a drefnwyd gan ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol wedi cynyddu 2.7 pwynt canran i 72.3% ers 2017.

Nid yw'r ffigurau hyn yn adio i 100% gan mai sail pob bar yw'r holl blant a phobl ifanc, a allai fod wedi cyfranogi mewn mwy nag un ffurf gelf mewn mwy nag un ffordd.

## Gradd gymdeithasol: Mynychiadau

Mae plant a phobl ifanc o raddau cymdeithasol uwch yn dal i ddangos lefelau uwch o fynychiadau mewn digwyddiadau celfyddydol yn 2018 (92.9% o'r grŵp ABC1 o gymharu â 86.4% o'r grŵp C2DE). Mae mynuchiadau mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy ymysg plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 wedi cynyddu 3.4 pwynt canran ers 2017. Mae canran y plant a phobl ifanc o aelwydydd C2DE sy'n mynychu'r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu fwy hefyd wedi cynyddu 2.1 pwynt canran. Mae'r gwahaniaeth o ran mynuchiadau rhwng y grwpiau ABC1 a C2DE wedi cynyddu o 5.2 pwynt canran yn 2017 i 6.5 pwynt canran yn 2018.





## Gradd gymdeithasol: Cyfranogiad

Cyfranogodd mwy o blant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 yn y celfyddydau yn 2018, o gymharu â phlant a phobl ifanc o aelwydydd C2DE, sef 90.1% a 84.5%. Mae canran y plant a phobl ifanc o aelwydydd C2DE a gyfranogodd yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu fwy wedi gostwng 2 bwynt canran. Mae lefelau cyfranogiad plant a phobl ifanc o'r grŵp ABC1 wedi cynyddu 1.6 pwynt canran. Mae'r bwlch rhwng y ddau fath o aelwyd yn 5.6 pwynt canran ar hyd o bryd. Golyga hyn fod y bwlch wedi cynyddu 3.6 pwynt canran ers 2017.

## Rhywedd: Mynychiadau

Mae'r mynychuadau mewn digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy wedi cynyddu ymysg y ddau rywedd ers 2017 (bechgyn, 1.7 pwynt canran a merched, 4 pwynt canran). Mae lefelau mynychuadau'n dal i fod yn uwch ymysg merched (93.7%) na bechgyn (85.1%).

Yn 2018, mae'r bwlch o ran mynychuadau rhwng y ddau rywedd wedi cynyddu 2.3 pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn gynt, gyda gwahaniaeth o 6.3 pwynt canran yn 2017 a 8.6 pwynt canran yn 2018.




## Rhywedd: Cyfranogiad

Mae lefelau cyfranogiad yn dal i fod yn uwch ymysg merched (89.6%) na bechgyn (84.5%).

Mae lefelau cyfranogiad ymysg merched wedi cynyddu 0.4 pwynt canran ond mae lefelau cyfranogiad ymysg bechgyn wedi gostwng 1.1 pwynt cyfrannol. Mae'r bwlch o ran cyfranogiad rhwng y ddau rywedd wedi cynyddu ychydig o'r flwyddyn flaenorol, o 3.6 pwynt canran yn 2017 i 5.1 pwynt canran yn 2018.

## Mynychiadau yn ôl Oedran



Mae plant iau yn fwy tebygol o fynychu digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy na phlant hŷn ac oedolion ifanc. Yn 2018, mynychodd mwy na 9 ym mhob 10 (95.6%) o blant 7-10 oed ddigwyddiad celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy.

Mae lefelau mynychiadau plant 7-10 oed 8.4 pwynt canran yn uwch na'r rhai ar gyfer plant a phobl ifanc 11-15 oed (87.2%). Unwaith eto, mae'r lefel mynychiadau isaf ymysg pobl ifanc 16-18 oed sef 85.3%.

Mae lefelau mynychiadau ymysg plant hŷn wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ond mae'r cyfraddau mynychiadau'n dal i fod yn is na'r cyfartaledd; roedd mynychiadau pobl ifanc 11-15 oed 2.3 pwynt canran yn uwch a mynychiadau rhai 16-18 oed 5.1 pwynt canran yn uwch nag yn 2017.

Mae'n amlwg bod yna rywffaint o gydberthynas o ran mynychuadau rhwng y grŵp oedran iau a'r grŵp blwyddyn ysgol. Yn 2018, roedd gan blant ym mlynnyddoedd ysgol 2-6 bron yn union yr un lefel o fynychiadau â phlant 7-10 oed; 95.6% a 95.2% yn y drefn honno.


Yn yr un modd, dim ond 1.2 pwynt canran yw'r gwahaniaeth o ran mynychuadau mewn digwyddiadau celfyddydol ymysg y rhai 11-15 oed a'r rhai ym mlynnyddoedd ysgol 7-11.

Mae mynychuadau mewn digwyddiadau celfyddydol wedi cynyddu 5.1 pwynt canran ymysg rhai 16-18 oed ers 2017.

Ceir y gwahaniaeth mwyaf rhwng pobl ifanc 16-18 oed a'r rhai ym mlynnyddoedd ysgol 12-13, sef 10.3 pwynt canran. Mae 85.3% o bobl ifanc 16-18 oed yn nodi eu bod yn mynychu digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach, o gymharu â 95.6% o'r rhai ym mlynnyddoedd ysgol 12-13.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, roedd llai o fynychiadau ymysg oedolion ifanc 16-18 oed na'r lefelau cyfartalog, ond mae mwy o fynychiadau ymysg y rhai ym mlynnyddoedd ysgol 12-13 na'r lefelau cyfartalog.

O'r plant a phobl ifanc nad ydynt yn mynd i'r ysgol, mynychodd 83.9% ohonynt ddigwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy yn 2018, ffigur sydd 6.6 pwynt canran yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol, ond sy'n dal i fod yn is na'r lefelau mynychuadau cyfartalog.






## Cyfranogiad yn ôl Oedran


Mae cyfranogiad yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl grŵp oedran yn dilyn patrwm tebyg i'r un ar gyfer mynychuadau mewn digwyddiadau celfyddydol. Mae gan y grwpiau oedran iau lefelau uwch o gyfranogiad na'r grwpiau oedran hŷn: 98% ymysg plant 7-10 oed, 90.2% ymysg y rhai 11-15 oed a 70% ymysg y rhai 16-18 oed.

Yn 2018, mae'r gwahaniaeth rhwng mynychuadau a chyfranogiad yn nhermau oedran yn dod yn fwy amlwg wrth edrych ar bobl ifanc 16-18 oed. Er bod gostyngiad graddol yn y cyfraddau mynychuadau wrth i'r ymatebwyr fynd yn hŷn, mae gostyngiad mwy nodedig mewn cyfranogiad rhwng pobl ifanc 16-18 oed – gwahaniaeth o 20.2 pwynt canran rhwng y rhai 11-15 oed a'r rhai 16-18.

Ymddengys fod cyfranogiad yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach ymysg pobl ifanc 16-18 oed yn cynyddu'n raddol dros y tair blynedd ddiwethaf, ond mae'r lefelau cyfranogiad yn dal i fod islaw'r lefelau cyfranogiad cyfartalog dros y tair blynedd ddiwethaf.



## Cymharu ymgyfranogi yn ôl oed a blwyddyn ysgol (% ymgyfranogi o'r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Mae cyfran y rhai 7-10 oed sy'n cymryd rhan yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu fwy bron yn union yr un peth ag ym mlynnyddoedd ysgol 2-6, gyda gwahaniaeth o 0.2 pwynt canran (98% a 98.2% yn y drefn honno).



Mae hyn yn wir hefyd am y rhai 11-15 oed a'r rhai ym mlynnyddoedd ysgol 7-11, gyda gwahaniaeth o 1.7 pwynt canran rhwng y ddau grŵp (90.2% a 88.5% yn y drefn honno).

Ni fydd rhai o'r bobl ifanc yn y grŵp oedran hynaf mewn blwyddyn ysgol mwyach, ac ymddengys fod gan y rhain lefelau is o gyfranogiad yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu fwy na'r rhai sy'n dal i fynd i'r ysgol. Mae 70% o'r rhai 16-18 oed yn cyfranogi mewn gweithgaredd celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy o gymharu â 84.5% o'r rhai ym mlynnyddoedd ysgol 12-13. Mae hyn yn nodi gwahaniaeth o 14.5 pwynt canran, gostyngiad ers 2017 pan welwyd gwahaniaeth o 18 pwynt canran rhwng y ddau grŵp.

Yn 2018, roedd 63.5% o'r rhai nad oeddent yn yr ysgol wedi cymryd rhan yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu fwy. Mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfartaledd sef 87% ond mae'n 1.4 pwynt canran o gynnydd o gymharu â 2017.

## Mynychiadau mewn digwyddiadau celfyddydol yn ôl Rhanbarth

Y De-orllewin oedd y rhanbarth â'r lefel uchaf o fynychiadau mewn digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy yn 2018 sef 92.3%. Mae hyn yn wahanol i ffigur 2017, pan mai rhanbarth Canolbarth y De oedd â'r lefelau uchaf o fynychiadau mewn digwyddiadau celfyddydol, sef 90.1%. Yn 2018, mae lefelau mynuchiadau yn rhanbarth Canolbarth y De wedi gostwng 1 pwynt canran i 89.1%. Mae rhanbarth y De-ddwyrain yn dal i fod â nifer is na'r cyfartaledd o fynychiadau, ynghyd a'r lefelau isaf o fynychiadau, sef 83.4%, er bod y ffigur hwn wedi cynyddu 3.9 pwynt canran ers 2017. Cafwyd y cynnydd mwyaf yn lefelau mynuchiadau yn y Gogledd sef 6.1 pwynt canran ers 2017.





## Cyfranogiad yn y celfyddydau yn ôl Rhanbarth

Y Gogledd oedd y rhanbarth â'r lefel uchaf o gyfranogiad yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu fwy gan blant a phobl ifanc yn 2018, sef 89.6%, a rhanbarth y De-orllewin yn ail agos iawn gyda 87.7%. Rhanbarth y De-ddwyrain oedd y rhanbarth â'r lefel isaf o gyfranogiad sef 82.2%. Mae lefelau cyfranogiad yn rhanbarth Canolbarth y De wedi gostwng 2.6 pwynt canran. Y De-ddwyrain oedd y rhanbarth a welodd y cynnydd mwyaf mewn cyfranogiad, 2.0 pwynt canran yn uwch nag yn 2017, ond mae'n dal i fod yn is na'r lefelau cyfranogiad cyfartalog yn 2018.

## Mynychiadau mewn digwyddiadau celfyddydol yn ôl y gallu i siarad Cymraeg


Fel yn y blynyddoedd blaenorol ac yn 2018, mae'r rhai â rhyw lefel o allu i siarad Cymraeg yn mynychu'r celfyddydau'n amlach na'r rhai sydd heb unrhyw allu i siarad Cymraeg; 94% o gymharu â 86.2% - gyda lefelau mynychiadau ymysg y rhai nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg yn dal i fod 3.1 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd.

Yn y ddau grŵp gwelwyd cynnydd o ran mynychiadau mewn digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy. Cynyddodd lefelau mynychiadau ymysg siaradwyr Cymraeg 4.1 pwynt canran, a lefelau mynychiadau ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg 1.3 pwynt canran.



O edrych yn fanylach ar y data, gwelir bod gan y rhai sy'n gallu siarad rhyw lefel o Gymraeg, ond nad ydynt yn rhugl, lefelau mynychiadau mewn digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy sy'n uwch na'r cyfartaledd, sef 94.0%, ac felly hefyd y rhai sy'n rhugl, sef 94.9%. Mae'r gwahaniaeth rhwng y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg o gwbl a'r rhai sy'n siarad rhywfaint o Gymraeg ond nad ydynt yn rhugl wedi cynyddu ers 2017 o 5.1 pwynt canran i 7.8 pwynt canran yn 2018.


## Cyfranogiad yn y Celfyddydau yn ôl y gallu i siarad Cymraeg



Gan ddilyn yr un duedd â'r lefelau mynychuadau, mae gan y rhai sy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg gyfraddau uwch o gyfranogiad yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu fwy nad sydd gan y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg o gwbl; 91.8% o'r siaradwyr Cymraeg yn 2018 o gymharu â 84.1% o'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Mae cyfranogiad yn y celfyddydau ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi gostwng 1.8 pwynt canran ers 2017, ond mae cyfraddau cyfranogiad ymysg siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu 1.9 pwynt canran. Mae lefelau cyfranogiad rhwng y ddau grŵp wedi cynyddu o 4 pwynt canran yn 2017 i 7.7 pwynt canran yn 2018.

Dengys dadansoddiad pellach o'r gallu i siarad Cymraeg a chyfranogiad yn y celfyddydau fod bod lefelau uwch o gyfranogiad ymysg plant a phobl ifanc sy'n siarad rhywfaint o Gymraeg o gymharu â'r rhai nad ydynt yn ei siarad o gwbl. Mae canran y rhai sy'n siarad rhywfaint o Gymraeg ond nad ydynt yn rhugl wedi parhau'n gymharol sefydlog sef tua 91% dros y cyfnod o dair blynedd. Mae cyfraddau cyfranogiad y rhai sy'n rhugl yn y Gymraeg wedi cynyddu 4.5 pwynt canran ers 2017 i 91.9% yn 2018.



### Atodiad 3: Diffiniadau o safleoedd cymdeithasol

Gellir rhannu'r boblogaeth yn chwe grŵp economaidd-gymdeithasol neu safleoedd cymdeithasol, sy'n seiliedig ar alwedigaeth y prif enillydd incwm ar yr aelwyd. Mae gan bawb yn y cartref yr un safle cymdeithasol â'r prif enillydd incwm. I gynorthwyo dadansoddi, cyfunir yn aml y tri safle cyntaf a'r tri diwethaf yn grŵp ABC1 a grŵp C2DE ac ystyrir eu bod yn cyfateb i'r dosbarthiadau canol a'r dosbarthiadau gweithiol:

- A "y dosbarth canol uchaf"- rheolaethol, gweinyddol, proffesiynol uwch e.e. Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cwmni, Uwch Was Sifil, Meddyg, Barnwr, Bargyfreithiwr, Cyfrifydd Gweithredol
- B "y dosbarth canol"- rheolaethol gweinyddol, proffesiynol uwch a chanolradd, e.e. Athro Ysgol Uwchradd, Llyfrgellydd, Rhaglennwr Cyfrifiadurol, Swyddog Prawf, Gweithiwr Cymdeithasol
- C1 "y dosbarth canol is"- goruchwylio, clerigol, rheolaethol is e.e. Gweithiwr Clerigol/Swyddfâ, Goruchwyliwr Siop Llawr, Clerc Banc, Gwerthwr, Myfyriwr  
**{ABC1au – swyddi proffesiynol, cymwys ac nad ydynt â llaw}**
- C2 "y dosbarth gweithiol medrus"-gweithwyr llaw medrus e.e. Trydanwr, Saer Coed, Diffoddwr Tân, Goruchwyliwr
- D "y dosbarth gweithiol"-gweithwyr llaw lled-fedrus a di-grefft e.e. Gweithiwr Siop, Gweithiwr Llinell mewn Ffatri, Casglwr Sbwriel, Negesydd, Gweithiwr Bar
- E Y rhai sy'n gwbl ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth, gan gynnwys pobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor a phensiynwyr heb bensiynau preifat; Labrwr Achlysurol  
**{C2DEau – gweithwyr llaw medrus, lled-fedrus a di-grefft a phobl nad ydynt yn gweithio}**

## Atodiad 4: Holiadur Arolwg 2017

### Cyngor Celfyddydau Cymru Cwestiynau terfynol Omnibws y Plant 2017

Dangos cerdyn

Cwestiwn 1 Pa mor aml ydych chi'n mynd i bob un o'r gweithgareddau a ddarllenaf ichi?

Felly, yn gyntaf, pa mor aml ydych chi'n

Mynd i ddramâu

... Sawl gwaith yr wythnos

... Unwaith yr wythnos

...2 neu 3 gwaith y mis

... Unwaith y mis

... Unwaith bob 2 i 3 mis

...2 neu 3 gwaith y flwyddyn

... Unwaith y flwyddyn

... Llai aml

... Byth

Ailadroddwch ar gyfer:

Mynd i sioeau cerdd

Mynd i'r opera

Mynd i gyngherddau cerddoriaeth glasurol

Mynd i gerddoriaeth fyw eraill

Mynd i berfformiadau dawns

Mynd i orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft

Mynd i ddarlleniadau, adrodd straeon neu ddigwyddiadau llenyddol eraill

Mynd i garnifalau a chelfyddydau'r stryd

Dangos cerdyn

**Cwestiwn 2 Pan aethoch chi i ddrama ddiwethaf, (gofynnwch am bob gweithgaredd sydd wedi'i fynychu o leiaf unwaith y flwyddyn yng Nghwestiwn 1) a oedd y digwyddiad:**

wedi'i drefnu gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol?  
wedi'i drefnu gan yr ysgol/coleg ond y tu allan i amser ysgol?  
yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)?

Ailadroddwch hyn am bob gweithgaredd a fynychwyd unwaith y flwyddyn neu'n amlach

Dangos cerdyn

**Cwestiwn 3 A pha mor aml ydych chi'n cymryd rhan ym mhob un o'r gweithgareddau a ddarllenaf ichi?**

Felly, yn gyntaf, pa mor aml ydych chi'n

Cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol (megis canu neu chwarae offeryn)

... Sawl gwaith yr wythnos  
... Unwaith yr wythnos  
...2 neu 3 gwaith y mis  
... Unwaith y mis  
... Unwaith bob 2 i 3 mis  
...2 neu 3 gwaith y flwyddyn  
... Unwaith y flwyddyn  
... Llai aml  
... Byth

Ailadroddwch ar gyfer:

cymryd rhan mewn gweithgaredd drama neu theatrig (e.e. actio, cyfarwyddo, gwaith technegol)?  
cymryd rhan mewn gweithgaredd dawn (heb gyfrif mynd i'r disgo/clwb nos)?  
cymryd rhan mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth?  
cymryd rhan yn y celfyddydau gweledol neu grefftau (e.e. peintio, tecstilau)?



cymryd rhan yn y celfyddydau digidol (creu a gwneud celf gan ddefnyddio technoleg ddigidol e.e. uwchlwytho, creu neu adgymysgu cynnwys celfyddydol ar YouTube, Flickr, er enghraifft)?  
cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol (e.e. barddoniaeth neu straeon)?

Dangos cerdyn

**Cwestiwn 4 Pan gymeroch chi ran ddiwethaf mewn gweithgaredd cerddorol** (gofynnwch am bob gweithgaredd y mae wedi cymryd rhan ynddo o leiaf unwaith y flwyddyn yng Nghwestiwn 3) **a oedd:**

yn yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol?

yn yr ysgol/coleg ond y tu allan i amser ysgol?

yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)?

Ailadroddwch hyn am bob gweithgaredd y cymerwyd rhan ynddo unwaith y flwyddyn neu'n amlach